


The Vulnerability Initiative.

# The Vulnerability Initiative

(Y Fenter i Bobl Agored i Niwed)

Yn darparu gwasanaethau a chymorth hanfodol am ddim i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

## Angen help?

Edrychwch ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i chi.

Noddir gan

WALES&WEST UTILITIES

I gael help, ffoniwch **0800 151 3014**

Datblygwyd gan HEALTHY HOMES SOLUTIONS

# Cyflwyniad

Gall bywyd fod yn anrhagweladwy, ac ar adegau, mae pawb ohonon ni'n wynebu cyfnodau pan mae pethau yn ein llethu neu rydyn ni'n methu ag ymdopi. Boed o ganlyniad i straen ariannol, salwch, neu heriau personol, mae gofyn am help yn gallu bod yn anodd yn aml. Does dim rhaid i chi ymdopi â'r anawsterau hyn ar eich pen eich hun.

Yn The Vulnerability Initiative, rydyn ni yma i roi cymorth i unrhyw un sy'n teimlo'n fregus, yn enwedig y rheini sy'n wynebu anawsterau o ran talu biliau neu reoli costau hanfodol.

Rydyn ni'n deall pa mor anodd y gall pethau fod, a thrwy ein partneriaid cymorth, rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws nag erioed i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnoch, boed hynny'n gymorth ariannol, atebion arbed ynni, arweiniad ar sut i ddelio ag adegau anodd neu drwy helpu gyda'r gwahanol ffurflenni sydd angen i chi eu llenwi i gael help.

Mae cofrestru'n gyflym, yn hawdd, ac am ddim, ac mae'n agor amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'u dylunio i'ch cefnogi chi, eich teulu neu eich aelwyd.
Mae ein tîm yn ymroddedig i helpu i gynnig yr ymddiriedaeth a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen arnoch, ni waeth yr amgylchiadau.

I gael rhagor o wybodaeth neu i ddechrau arni heddiw, ewch i **thevulnerabilityinitiative.org** neu ffoniwch **0800 151 3014**. Rydyn ni yma i chi, bob cam o'r ffordd.



**Derek Owen**
**Rheolwr Gyfarwyddwr**
**Healthy Homes Solutions (HHS)**

# Gweithio gyda'n Gilydd i'ch Cefnogi Chi

Mae'r Vulnerability Initiative yn dod â phartneriaid dibynadwy at ei gilydd i gynnig cymorth ymarferol i aelwydydd agored i niwed ac sy'n wynebu tlodi tanwydd.

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth brysbennu, addysgol ac sy'n gallu cyfeirio i wneud y broses o gael gafael ar gymorth yn fwy syml.

Ein nod yw lleihau'r gwaith o lenwi mwy nag un ffurflen. Rydyn ni'n gweithio i'ch helpu chi i gael gafael ar gymorth yn gyflym ac yn effeithiol.

### Peidiwch ag wynebu heriau ar eich pen eich hun.

Mae ein tîm gwasanaethau i aelodau ymroddedig yn barod i roi cymorth i chi.

### Gallwn ni eich helpu chi os ydych chi:

- Yn cael anhawster i dalu eich treth gyngor
- Angen gwiriad budd-daliadau'r Adran gwaith a Phensiynau
- Yn cael anhawster gyda biliau ynni
- Eisiau cymorth iechyd meddwl
- Eisiau cyngor ar sut i reoli dyledion
- A llawer iawn mwy...

I siarad gydag aelod o'n tîm, ffoniwch ni am ddim ar **0800 151 3014**

thevulnerabilityinitiative.org

# 3 ffordd i gael help

1. Cofrestrwch heddiw yn **thevulnerabilityinitiative.org**, dewiswch "galwad yn ôl/call back" a dewis dyddiad ac amser i dîm Healthy Homes eich ffonio'n ôl pan fydd yn gyfleus i chi
2. **Ffoniwch 0800 151 3014** – a bydd aelod o'r tîm Vulnerability Initiative yn gwrando, ac yn eich cofrestru ar gyfer y gwasanaethau ychwanegol perthnasol
3. Gan ddefnyddio eich ffôn symudol neu dabled, sganiwch y cod QR, llenwch y dudalen gofrestru ar-lein, yna dewiswch y gwasanaethau y dymunwch gofrestru gyda nhw, neu gael rhagor o wybodaeth amdanynt





# Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth am ba wasanaethau mae gennyf hawl i gael mynediad iddynt?

Mae Healthy Homes Solutions (HHS) wedi sefydlu tîm cymorth gwasanaethau i aelodau.

Gellir cael mynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn drwy gofrestru ar-lein yn **thevulnerabilityinitiative.org,** lle gallwch drefnu galwad yn ôl pan fydd yn gyfleus i chi.

### Cofrestru nawr

**Sganiwch y cod QR** a chofrestru heddiw am y gwasanaethau ychwanegol hyn neu ffoniwch **0800 151 3014**

# Gwasanaethau sydd ar gael

The Vulnerability Initiative.


| | |
|---|---|
| Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR) | Tudalen 6 |
| Monitro a Chyngor ar garbon monocsid | Tudalen 7 |
| Gwasanaeth Cofrestru'r sawl sy'n agored i niwed (VRS) | Tudalen 8 |
| Cymorth Iechyd Meddwl Cyfrinachol | Tudalen 9 |
| Cymorth Gofal Canser | Tudalen 10 |
| Gwella'r defnydd o ynni mewn cartrefi | Tudalen 11 |
| Arbed Arian ar Filiau Gwres | Tudalen 12 |
| Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Tudalen 13 |
| Eich helpu i ddeall eich budd-daliadau | Tudalen 14 |
| Gwiriadau Cymhwysedd Grant Gwella Cartrefi | Tudalen 15 |
| Canllaw Lleihau eich Biliau Ynni | Tudalen 16-17 |
| Gofal yr arennau - Cymorth a chyngor | Tudalen 18 |
| Cymorth ar gyfer profedigaeth | Tudalen 19 |

| | |
|---|---|
| Cymorth ariannol gydag IE Hub | Tudalen 20 |
| Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS) | Tudalen 21 |
| Alzheimer - Cymorth a Chyngor | Tudalen 22 |
| Gamblo - Cymorth a Chyngor | Tudalen 23 |
| Cymorth ar annibyniaeth | Tudalen 24 |
| Hyfforddiant ar sgamiau gan Friends Against Scams | Tudalen 25 |
| Pecynnau Arbed dŵr am ddim | Tudalen 26 |
| Tariffau Cymdeithasol Band Eang | Tudalen 27 |
| Dolenni cyflym | Tudalen 28 |
| Amodau | Tudalen 29 |


Cofrestrwch ar gyfer ein gwasanaeth am ddim unrhyw bryd neu ffoniwch i siarad â'n tîm yn ystod oriau swyddfa. Ffôn 0800 151 3014

Ewch i'n gwefan thevulnerabilityinitiative.org i drefnu slot galwad yn ôl

# Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR)

**Cwsmeriaid sydd wrth galon WWU. Mae ganddynt uchelgais feiddgar i helpu 500,000 o gwsmeriaid agor i niwed i ddefnyddio ynni'n ddiogel, yn effeithlon ac yn fforddiadwy erbyn 2026.**

Mae'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR) yn rhan allweddol o strategaeth WWU i gynnig y gwasanaeth am ddim hwn i gwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol mewn argyfwng.

## Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer y PSR?

Gall y tîm Gwasanaethau i Aelodau Healthy Homes eich cofrestru chi ar gyfer y PSR gyda galwad ffôn syml. Byddant angen eich awdurdodiad dros y ffôn ac fe wnawn nhw bopeth arall i chi. Am fwy o wybodaeth am y PSR ewch i:
**WWU.co.uk/PSR**

Rydych chi'n gymwys os ydy eich aelwyd yn cynnwys unrhyw un dros 60 oed, plant dan 5 oed, neu unigolion gydag afiechydon cronig, anableddau, neu anghenion penodol eraill.

Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau eich bod yn cael cymorth hanfodol os nad oes gennych nwy oherwydd argyfwng neu waith sydd ar y gweill.

Mae'r rhain yn cynnwys cynnig cyfleusterau coginio a gwresogi arall yn ystod ymyriadau nwy.

Maent hefyd yn cynnig cyfleuster cyfrinair i wella diogelwch ar garreg y drws, gan sicrhau bod peirianwyr yn dilyn gweithdrefnau llym ar gyfer dilysu pwy ydynt.

Os ydych yn cael anhawster o ran cael gafael ar y falf rheoli argyfwng nwy oherwydd problemau symudedd, mae'n bosibl y bydd WWU yn ei symud i leoliad mwy cyfleus.

Mae WWU hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu 24/7 i helpu gydag anghenion cyfathrebu trwy gydol y flwyddyn.

**Os byddech chi'n hoffi siarad ag aelod o dîm Healthy Homes ffoniwch 0800 151 3014, neu cofrestrwch yn thevulnerabilityinitiative.org a byddant yn eich rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â sut i gael gafael ar help.**



# Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid (CO)

**Gall peryglon gwenwyn Carbon Monocsid yn eich cartref fod achosi poen meddwl, yn enwedig am ei fod yn nwy gwenwynig sydd heb liw, heb arogl, a heb flas sy'n cael ei ryddhau pan na fydd unrhyw danwydd ffosil yn llosgi'n iawn. Allwch chi ddim ei weld, ei flasu na'i arogli.**

Mae CO yn nwy gwenwynig dros ben sy'n peri risg ddifrifol i iechyd os ydych yn dod i gysylltiad ag ef. Mae'r risg o ddigwyddiadau gwenwyn CO yn cynyddu pan na fydd gan gartrefi'r DU larymau CO digonol neu nad oes ganddynt rai ar hyn o bryd.

**I leihau'r peryglon:**

- Prynwch larwm CO sydd wedi'i ardystio i safon BS EN 50291 o siop DIY, archfarchnad neu gyflenwr ynni, a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei osod yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr bod eich holl offer nwy yn cael eu gosod yn gywir ac yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn gan beiriannydd ar y Gofrestr Diogelwch Nwy.
- Gwnewch yn siŵr bod pob simnai a ffliw yn cael eu glanhau bob blwyddyn i atal unrhyw rwystrau.

Gall symptomau o wenwyn Co fod yn debyg i rai gwenwyn bwyd a'r ffliw. Cadwch olwg am gur pen, pendro, cyfog a chwydu, blinder a dryswch, poen bol, diffyg anadl ac anhawster anadlu.

Os ydych chi'n poeni eich bod wedi dod i gysylltiad â CO ac yn dangos unrhyw un o'r arwyddion, gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith.

## Sut alla i gael larymau CO am ddim?

Fel aelod, cofrestrwch gyda'r tîm a byddant yn eich ffonio i wneud cais am larymau CO drwy WWU ar eich rhan. Byddant angen eich awdurdodiad a rhywfaint o fanylion dros y ffôn ac fe wnawn nhw bopeth arall i chi.

**Os ydych yn arogli nwy, ffoniwch am ddim ar unwaith ar 0800 111 999**



# Gwasanaeth Cofrestru'r sawl sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth hwn yno i gefnogi unigolion sy'n mynd drwy gyfnod anodd y gallai hynny effeithio ar eu penderfyniadau ariannol.

**Beth rydyn ni'n ei wneud**: Mae'n cynnig ffordd i unigolion roi gwybod i gwmnïau ariannol am eu sefyllfa. Mae hyn yn helpu'r cwmnïau hyn i'w trin yn deg pan fyddant yn gwneud cais am wasanaethau neu os ydynt yn cael anhawster gyda thaliadau.

**Pethau Pwysig i'w Cofio:** Os na fydd rhywun yn gallu cofrestru eu hunain (er enghraifft, os oes ganddo Dementia), gall unigolyn â phŵer cyfreithiol i weithredu ar eu rhan wneud hynny. Dim ond y sefyllfa bresennol mae'r VRS yn ei ddangos. Mae hanes cofrestriad yn y gorffennol yn breifat.

**Mae defnyddio'r VRS yn ddewisol:** Mae yno i helpu i warchod unigolion yn ystod cyfnodau pan fyddant yn agored i niwed. Mae'r VRS yno i gynnig cymorth.

## Sut mae'n gweithio

**1.** Gallwch chi ddewis sut rydych chi eisiau i gwmnïau ddelio â'ch gwybodaeth

**Opsiwn A:** Gofyn i gwmnïau beidio â chynnig gwasanaethau ariannol i chi ar hyn o bryd.

**Opsiwn B:** Rhoi gwybod i gwmnïau y dylent ystyried eich sefyllfa'n ofalus.

**2.** Mae eich gwybodaeth yn aros ar eu cofrestr am dri mis.

**3.** Ar ôl tri mis, gallwch ofyn i'r VRS dynnu eich gwybodaeth os yw pethau wedi gwella.

**4.** Ar ôl ei thynnu, ni fydd neb yn gallu gweld eich bod erioed wedi cofrestru â'r VRS.



# Cymorth Iechyd Meddwl gan Mental Health UK

**Mae Mental Health UK yn dod â threftadaeth a phrofiad pedair elusen at ei gilydd ledled y wlad sydd wedi cefnogi pobl gyda'u hiechyd meddwl ers dros hanner can mlynedd.**

Gan weithio ledled y DU, maent yn darparu gwasanaethau cenedlaethol a lleol sy'n galluogi ac yn grymuso pobl i ddeall a rheoli eu hiechyd meddwl mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gydag empathi.

Gyda'u darpariaeth gwasanaethau lleol a'u harbenigedd cenedlaethol, mae Mental Health UK wedi gallu gwneud argraff sylweddol yn y meysydd sydd wir yn herio ein hiechyd meddwl a'n sefydlogrwydd, gan gynnig yr adnoddau sydd eu hangen ar bobl i fyw eu bywyd gorau posibl.

Maent yn cynnig cymorth a gwasanaethau ar gyfer rhai o'r heriau mwyaf mewn cymdeithas sy'n peri bygythiad i iechyd meddwl pobl, gan gynnwys problemau arian, llywio'r system i gael gafael ar y cymorth iawn, deall iechyd meddwl, unigrwydd ac ynysigrwydd, a chadernid ymysg pobl ifanc.

### Sut i gael gafael ar gymorth

**Cyngor a gwybodaeth:** Mae gwefan Mental Health UK yn cynnig adnoddau ar amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl, opsiynau cymorth, yn ogystal ag arweiniad ar reoli iechyd meddwl, gan gynnwys cyngor ar fywyd bob dydd a strategaethau ymdopi. **mentalhealth-uk.org**

**Iechyd Meddwl a Chyngor Ariannol:** Mae'r gwasanaeth arbenigol hwn yn bodoli i helpu pobl i ddeall, rheoli a gwella eu problemau ariannol ac iechyd meddwl. Mae'n borth am ddim i wybodaeth, cymorth a chyngor cynhwysfawr a diduedd ar faterion ariannol drwy lens iechyd meddwl. Ar y wefan, gallwch ddod o hyd i gyngor arbenigol, adnoddau a chyfrifianellau ariannol rhad ac am ddim, templedi llythyrau, straeon go iawn a chysylltiadau defnyddiol. Ewch i: **mentalhealthandmoneyadvice.org**

**I Mewn i Waith:** Rydyn ni'n gwybod pa mor hanfodol y gall cyflogaeth fod i bobl, yn feddyliol ac yn ymarferol o ran darparu pwrpas a sefydlogrwydd ariannol. Mae Into Work yn wasanaeth cyflogaeth cyfannol sy'n darparu cymorth cofleidiol i helpu pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl yn ôl i gyflogaeth. Ewch i: **mentalhealth-uk.org/into-work/**

Yn ogystal â'r gwasanaethau hyn, mae Mental health UK yn cynnig amrywiaeth o adnoddau ymarferol trwy eu gwefan, gan gynnwys canllawiau llesiant, adnoddau i reoli straen a chanllawiau ar sut i gynnal sgwrs am iechyd meddwl.

Mwy o adnoddau: **mentalhealth-uk.org/help-and-information/downloadable-resources/**

### Rhagor o gymorth:

I drafod sut gall Mental Health UK eich helpu gydag aelod o dîm Healthy Homes, cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** i gael galwad yn ôl neu ffoniwch **0800 151 3014** am gymorth.



# Maggie's - Gofal Canser

**Mae Maggie's yn cynnig gofal a chymorth arbenigol am ddim i unrhyw un gyda chanser a'r holl bobl sy'n eu caru, mewn canolfannau ledled y DU ac ar-lein. Mae eu canolfannau'n llefydd croesawgar lle gallwch ddod o hyd i gymorth ymarferol ac emosiynol mewn adeiladau llachar a chroesawgar wrth ymyl ysbytai'r GIG.**

## Sut mae'n gweithio?

I gael rhagor o wybodaeth am Maggie's, ewch i'w gwefan maggies.org, ffoniwch 0300 123 1801 neu galwch heibio'ch canolfan Maggie's agosaf. Bydd staff cyfeillgar yn eich croesawu a byddant yn barod i wrando arnoch a'ch arwain drwy'r cymorth sy'n iawn i chi.

Mae ganddynt gynghorwyr budd-daliadau, seicolegwyr ac arbenigwyr cymorth canser sy'n cynnal grwpiau cymorth neu sesiynau un-i-un. Maent hefyd yn cynnal gweithdai maeth, sesiynau ymlacio a chyrsiau rheolaidd y gallwch ymuno â nhw a thrafod unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae darganfod bod gennych ganser yn newid eich bywyd, a gall yr wythnosau ar ôl cael diagnosis fod y cyfnod anoddaf a mwyaf heriol. Mae Maggie's yma o'r eiliad honno.

## Sut all Maggie's helpu?

Mae canolfannau Maggie's yn darparu lle cysurlon sy'n eich grymuso i fyw'n dda gyda chanser. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chymorth wedi'i deilwra i helpu i reoli symptomau a sgil effeithiau, cefnogaeth emosiynol i chi a'ch anwyliaid, a gallwch hefyd gyfarfod pobl eraill mewn sefyllfa debyg.

Gall Maggie's helpu gyda'r adnoddau a strategaethau i gefnogi iechyd y corff a'r meddwl yn ystod triniaeth a phan ddaw i ben. Mae eu harbenigwyr cymorth canser yno bob amser i wrando ar sut ydych chi'n teimlo ar ôl eich triniaeth a thu hwnt.

Os hoffech chi siarad ag un o'r tîm Healthy Homes ffoniwch **0800 151 3014**, neu cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a byddant yn eich rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â sut gall Maggie's roi cymorth i chi.



**Mae BHBH yn cael ei redeg gan Y Sefydliad Ynni Cenedlaethol (NEF)**

# Eich helpu i greu cartref cynhesach

**Mae Better Housing Better Health (BHBH) wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ledled y DU. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl agored i niwed reoli eu defydd o ynni a lleihau costau.**

## Beth mae gwasanaeth Better Housing Better Health yn ei gynnig?

Mae BHBH yn cynnig cyngor ymarferol, mynediad at grantiau, ac arweiniad arbenigol i aelwydydd, a'u grymuso i wneud penderfyniadau ynni gwybodus.

P'un a ydych chi'n awyddus i wella inswleiddio, deall opsiynau arbed ynni, lleihau biliau ynni, neu gael gafael atebion adnewyddadwy, mae BHBH yn cynnig cymorth cam wrth gam, wedi'i bersonoli i ddiwallu eich anghenion a chreu cartrefi iachach, mwy effeithlon.

Trwy gysylltu â Better Housing Better Health (BHBH), byddwch yn cael gafael ar wasanaethau sydd wedi'u dylunio i wneud eich cartref yn gynhesach, yn iachach, ac yn fwy ynni-effeithlon.

Mae'r rhaglen yn helpu aelwydydd sy'n wynebu costau ynni uchel, gwresogi aneffeithlon, ac inswleiddio gwael gyda chyngor wedi'i deilwra, cymorth grant, ac arweiniad cam wrth gam.

Mae BHBH yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd, ac yn cynnig atebion sy'n lleihau biliau ynni, yn gwella amodau byw, yn ogystal â gwella cynaliadwyedd.

Wrth fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol a chynnig atebion hirdymor, mae'r rhaglen yn helpu pobl fyw'n fwy cyfforddus, arbed arian ar filiau ynni, a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Sut mae'n gweithio?

### Dwy ffordd o gael help:

1. **Ffonio:** Siaradwch â chynghorydd Better Housing Better Health (BHBH) am gyngor a chymorth arbed ynni wedi'i bersonoli ar sut i wella effeithlonrwydd ynni eich cartref. **Ffoniwch 01908 665555** am gymorth am ddim.
2. **Cael gafael ar wybodaeth ar-lein:** Ewch i **www.bhbh.org.uk** i edrych ar adnoddau a chanllawiau sydd wedi'u dylunio i'ch helpu i leihau costau ynni a chreu cartref cynhesach, iachach a mwy cynaliadwy.

# Cyngor ar ynni i arbed arian ar eich biliau gwres

### Beth i'w wneud os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch biliau ynni:

Mae National Energy Action (NEA) yn deall pa mor uchel yw biliau ynni erbyn hyn ac yn sylweddoli bod llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd.

Mae NEA wedi datblygu tudalen gyngor bwrpasol i unigolion sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau ynni.

Mae'r dudalen hon yn adnodd cynhwysfawr sy'n cynnig arweiniad ar y camau gweithredu y gallwch eu cymryd ar unwaith, y cynlluniau cymorth sydd ar gael, a ffyrdd effeithiol o reoli a lleihau costau ynni.

Maent hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o ganllawiau ac adnoddau sy'n dangos ffyrdd o leihau'r defnydd o ynni a lleihau eich biliau.

Ewch i'r dudalen gymorth bwrpasol yn: **www.nea.org.uk/get-help/** a chliciwch ar **"Beth i'w wneud os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch biliau ynni."**

### Cymorth Ychwanegol:

I roi rhagor o gymorth i'r rhai mewn angen, mae NEA wedi llunio rhestr o sefydliadau dibynadwy sy'n gallu cynnig cymorth ychwanegol.

Mae'r partneriaid hyn wedi cael eu gwirio'n fanwl i sicrhau eu bod yn bodloni safonau ansawdd ac ymrwymiad NEA, gan roi cymorth hanfodol sy'n cyd-fynd â gwerthoedd NEA. I gael gafael ar ganllaw cynhwysfawr am y sefydliadau cymorth hyn a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch, ewch i wefan NEA: **www.nea.org.uk/get-help/additional-help/**

### Lleihau biliau gwres

**Canllaw Healthy Homes;**
Mae Healthy Homes Solutions wedi nodi nifer o ffyrdd o leihau eich costau ynni. Mae'n rhestru'r ffyrdd gwahanol o leihau eich biliau, yr arbedion tebygol a'r costau ar gyfer pob ateb.

Os hoffech chi siarad ag un o'r tîm yn Healthy Homes, ffoniwch **0800 151 3014**, neu cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a byddan nhw'n eich rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â sut i gael gafael ar help.





# Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes ar gyfer y gaeaf yn cynnig cyfle unigryw i gael gostyngiad ar eich bil. Nid taliad uniongyrchol i unigolion yw hwn ond didyniad un tro oddi ar eich bil yn ystod cyfnod y gaeaf.

Os ydych chi'n gymwys, bydd y gostyngiad fel arfer yn cael ei roi'n awtomatig. Bydd hysbysiad o gymhwysedd yn cael ei gadarnhau drwy lythyr a fydd yn cael ei anfon erbyn dechrau mis Ionawr. Os nad ydych wedi cael llythyr erbyn hynny ac yn credu y dylech chi fod yn gymwys, rhaid i chi gysylltu â'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes.

Mae'n bwysig egluro na fydd y gostyngiad hwn yn effeithio ar unrhyw Daliad Tywydd Oer na Thaliad Tanwydd y Gaeaf y gallwch eu cael.

**Meini Prawf Cymhwysedd: Yng Nghymru a Lloegr, mae cymhwysedd yn dibynnu ar dderbyn elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, ac os ydych chi ar incwm isel a bod gennych chi gostau ynni uchel.**

**Dull talu:** Mae'n bosibl y byddwch chi'n dal yn gymwys am y gostyngiad os ydych chi'n defnyddio mesurydd trydan talu ymlaen llaw neu fesurydd talu wrth fynd. Bydd eich cyflenwr trydan yn gallu rhoi gwybod i chi sut byddwch chi'n cael y gostyngiad os ydych chi'n gymwys, er enghraifft, taleb y gallwch ei defnyddio i ychwanegu at eich mesurydd.

**Preswylwyr Cartrefi mewn Parciau:**
Mae proses ymgeisio benodol ar waith i breswylwyr cartrefi mewn parciau (cartrefi symudol). Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgeisio trwy'r dull Gostyngiad Cartrefi Cynnes Cartrefi mewn Parciau a bod gennych chi gostau ynni uchel.

**I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais am y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, cofrestrwch ar dudalen gwefan Llywodraeth y DU yma: https://www.gov.uk/check-if-youre-eligible-for-warm-home-discount**

# Eich helpu i ddeall eich budd-daliadau

**Mae llywio'r system fudd-daliadau yn gallu bod yn ddryslyd heb fod angen. Mae Policy in Practice yn cynnig adnoddau ac arweiniad i'ch helpu i ddeall pa gymorth y mae gennych hawl iddynt a sut y gallai newidiadau yn eich amgylchiadau effeithio ar eich budd-daliadau.**

P'un a ydych yn rhentu neu'n berchen ar eiddo, neu'n byw gyda ffrindiau neu deulu, gall y tîm eich arwain chi drwy gwestiynau syml ynghylch eich sefyllfa bresennol.

Mae £23 biliwn o fudd-daliadau heb eu hawlio bob blwyddyn, peidiwch â cholli'r cyfle ar yr hyn sy'n ddyledus i chi.

### Defnyddio'r Cyfrifiannell

1. **Ewch i'w gwefan:** Ewch i **https://bit.ly/4gFnN2V** a chliciwch ar y cyfrifiannell Better Off Calculator
2. **Rhoi eich Gwybodaeth** Rhowch fanylion eich incwm, eich aelwyd, a'ch statws cyflogaeth.
3. **Gwirio eich Canlyniadau:** Gallwch weld dadansoddiad clir o'ch budd-daliadau cyfredol a sut y gallai newidiadau posibl effeithio ar eich cyllid.

## Sut gallen nhw helpu?

**Cyfrifiannell sy'n edrych ar eich sefyllfa ariannol (Better Off Calculator):** Mae'r adnodd ar-lein am ddim hwn yn eich helpu i weld sut mae sefyllfaoedd gwahanol - fel dechrau swydd newydd neu newid eich oriau gwaith - yn gallu effeithio ar eich incwm a'ch budd-daliadau. Mae wedi'i ddylunio i roi darlun clir o'ch sefyllfa ariannol. Ewch i'n cyswllt partner yma: **https://bit.ly/4gFnN2V**.

**Cyngor wedi'i bersonoli:** Trwy roi eich manylion yn y cyfrifiannell, byddwch yn cael gwybodaeth wedi'i phersonoli ynghylch y budd-daliadau y gallwch eu hawlio a sut i wneud cais amdanynt.

**Diogelwch Data:** Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei drin gyda'r gofal mwyaf, gan sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei ddiogelu bob amser.

### Angen Help Nawr?

Os ydych chi'n dymuno siarad ag aelod o'r tîm Healthy Homes, ffoniwch **0800 151 3014**.

**I weld y cyfrifiannell, sganiwch y cod QR.**





# Gwiriad Grant Ynni'r Cartref

**Mae Healthy Homes Solutions wedi ymrwymo i roi cymorth i aelwydydd agored i niwed ac sy'n wynebu tlodi tanwydd i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan sicrhau bod gan bawb fynediad at amgylchedd byw cynnes, cost-effeithiol a chysurus.**

## Sut mae'n gweithio?

I bennu a ydych yn gymwys am gymorth. Ewch i'n gwefan yn **thevulnerabilityinitiative.org**. Mae ein hadnodd gwirio cymhwysedd yn ffordd syml i weld os gallwch elwa o grantiau amrywiol, wedi'u hanelu at wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon.

Mae'r grantiau hyn yn gallu cynnwys amrywiaeth o welliannau, o inswleiddio gwell a systemau gwresogi i atebion ynni adnewyddadwy. Mae'r rhain i gyd wedi'u dylunio i leihau costau gwresogi a gwella pa mor gynnes a chyfforddus yw eich cartref.

Gallwch hefyd ffonio ein tîm yn uniongyrchol, yn rhad ac am ddim ar **0800 151 3014**, lle bydd ein tîm yn barod i helpu a'ch rhoi chi ar ben y ffordd o ran yr opsiynau sydd ar gael, a'ch cefnogi yn ystod y broses.

## Sut gallwn ni eich helpu chi?

Ein nod yw grymuso preswylwyr agored i niwed ac sy'n wynebu tlodi tanwydd trwy roi mynediad at grantiau a all drawsnewid eu tai yn gartrefi ynni-effeithlon.

Mae'r mentrau hyn yn helpu i ostwng biliau ynni, yn ogystal â chyfrannu at amgylchedd iachach a mwy cynaliadwy.

Rydyn ni'n eich helpu i ddarganfod os yw eich cartref yn gymwys am grantiau gwella cartrefi drwy roi cymorth i breswylwyr nodi os ydynt yn gymwys am grantiau amrywiol sy'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni'r cartref.

Os ydy eich cartref yn gymwys, bydd ein tîm ymroddedig yn cysylltu i'ch arwain chi drwy'r camau nesaf, gan sicrhau eich bod yn deall y cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael.

Mae'r dull gweithredu hwn sydd wedi'i bersonoli yn sicrhau eich bod yn derbyn y cymorth angenrheidiol i fynd i'r afael â'r broses grantiau'n llwyddiannus.

Ein nod yw nodi a ydych yn gymwys, yn ogystal â hwyluso'r gwaith o gael gafael ar y grantiau hyn, gan wneud y llwybr tuag at gartref ynni-effeithiol mor hawdd â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth fanwl ar sut y gall y grantiau hyn fod o fudd i'ch cartref ac i wirio eich cymhwysedd, ewch i **thevulnerabilityinitiative.org** neu ffoniwch ein tîm am ddim ar **0800 151 3014.**

HEALTHY HOMES SOLUTIONS

# Lleihau eich biliau ynni

Dewch o hyd i amrywiaeth o gyngor arbenigol ar sut i leihau eich biliau ynni, o arferion syml, heb gost y gallwch eu mabwysiadu bob dydd, i gamau gweithredu mwy a allai olygu buddsoddiad. Y newyddion da yw, os ydych chi'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, gallwch chi gael llawer o'r newidiadau hyn yn rhad ac am ddim neu'n rhatach na'r arfer. Dechreuwch drawsnewid y ffordd rydych chi'n arbed costau ynni yn eich cartref heddiw.

| Beth ddylech ei wneud | Pam? | Canlyniad | Cost |
|---|---|---|---|
| **Gwres** | | | |
| Gostwng tymheredd y tanc dŵr poeth | Gostwng tymheredd eich tanc dŵr poeth i 60 gradd | Arbed £20 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost** |
| Thermostatau clyfar a rheolaethau gwresogi | Gosod thermostatau clyfar a rheolaethau gwresogi gan roi mwy o hyblygrwydd ar eich gwres | Arbed £50 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost*** |
| Diferu eich gwresogyddion | Gall diferu eich gwresogyddion wneud eich cartref yn gynhesach a lleihau'r amser i gynhesu eich gwresogyddion | Arbed £30 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost** |
| Diffodd gwresogyddion sydd ddim yn cael eu defnyddio | Pan nad ydych chi mewn ystafell yn rheolaidd, trowch falf y gwresogydd yn is | Arbed £45 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost** |
| Uwchraddio eich boeler | Byddai uwchraddio eich hen foeler i foeler cyddwyso gradd-A newydd yn arbed arian ar unwaith | Arbed £300 y flwyddyn | **Cost uchel/ Dim Cost*** |
| Ychwanegyn perfformiad gwres | Ychwanegyn arbed ynni ar gyfer systemau gwresogi gwlyb sy'n lleihau'r tanwydd sydd ei angen i wresogi ystafell | Arbed £35 y flwyddyn | **Cost Isel** |
| **Golau** | | | |
| Newid i fylbiau golau LED | Mae newid i fylbiau golau LED sy'n ynni-effeithlon yn syml ac yn hawdd, a gall helpu i leihau costau ar unwaith | Arbed £40 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost*** |
| Bylbiau golau - diffodd er mwyn arbed arian | Gallai diffodd y golau pan nad ydych chi ei angen arbed hyd yn oed mwy o arian ar filiau ynni | Arbed £25 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| **Inswleiddio** | | | |
| Inswleiddio eich tanc dŵr poeth | Buddsoddwch mewn inswleiddio eich tanc silindr dŵr poeth | Arbed £50 y flwyddyn | **Cost Isel** |
| Ffoil Adlewyrchydd Gwresogydd | Paneli ffoil sy'n adlewyrchu'r gwres o'r gwresogydd yn ôl i'r ystafell | Arbed £20 y flwyddyn | **Cost Isel** |
| Atal drafftiau yn eich Cartref | Dod o hyd i ddrafftiau yn eich cartref a'u trwsio, a gosod mesurau atal drafftiau | Arbed £105 y flwyddyn | **Cost Isel** |
| Gosod ffenestri gwydr dwbl | Mae gosod ffenestri gwydr dwbl yn lleihau eich biliau, yn helpu i inswleiddio eich cartref, yn ogystal â lleihau sŵn o'r tu allan | Arbed tua £110 y flwyddyn | **Cost uchel/ Dim Cost*** |
| Inswleiddio eich to | Os nad ydych chi wedi gwneud hyn eto, yna bydd yn cael effaith bron yn syth o ran lleihau eich biliau gwres | Arbed £135 y flwyddyn | **Cost uchel/ Dim Cost*** |



| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dŵr** | | | |
| Cael cawod fyrrach | Gall cael cawod fyrrach neu gawod sy'n para tua 4 munud arbed arian ar eich biliau dŵr a gwres | Arbed £75 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Lleihau defnyddio peiriant golchi llestri | Bydd lleihau'r defnydd o'ch peiriant golchi llestri a defnyddio gosodiad amser is yn helpu i leihau eich biliau ynni | Arbed £15 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Golchi dillad ar dymheredd is | Mae peiriannau golchi dillad modern yn gallu golchi dillad yn effeithiol ar dymheredd is. | Arbed £30 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Llai o olchi dillad | Gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi llwyth llawn o ddillad bob amser, ac mae golchi dillad dim ond un waith yr wythnos yn arbed hyd yn oed mwy o arian | Arbed £15 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Bod yn fwy clyfar gyda dŵr | Mae golchi'r llestri mewn powlen yn hytrach na gadael i'r tap redeg yn helpu i leihau biliau a gwastraff dŵr | Arbed £25 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Peidiwch â gorlenwi eich tegell | Trwy ferwi dim ond digon o ddŵr ar gyfer yr hyn rydych chi ei angen, byddwch yn helpu i leihau eich biliau dŵr a gwres ymhellach | Arbed rhwng £13 a £37 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| **Offer** | | | |
| Gosod mesurydd clyfar | Bydd hyn yn eich helpu i weld ar beth rydych yn gwario'ch arian a lle gallwch chi gymryd camau gweithredu | Arbed hyd at £110 y flwyddyn | **Cost Isel / Dim Cost*** |
| Peiriant sychu dillad - diffodd er mwyn arbed arian | Gallwch arbed cryn dipyn o arian bob blwyddyn trwy beidio â defnyddio eich peiriant sychu dillad mor aml | Arbed £55 y flwyddyn | **Dim Cost** |
| Offer - diffodd er mwyn arbed arian | Mae diffodd offer yn y soced yn ffordd arall wych o leihau eich biliau | Arbed £50 y flwyddyn | **Dim Cost** |

** mae'n bosibl bod eitemau wedi'u marcio â seren ar gael yn rhatach neu am ddim. Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol. Cysylltwch â'ch cwmni cyfleustodau am ragor o gyngor.*

## Mae'r wybodaeth am arbed ynni wedi cael ei chasglu gan un o'r safleoedd canlynol sydd ar gael yn agored:

**Tudalennau Cymorth WWU:** https://www.WWU.co.uk/help-and-advice/energy-crisis-support/energy-efficiency-tool

Cyngor Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar arbed arian: https://energysavingtrust.org.uk/hub/quick-tips-to-save-energy/

**National Energy Action (NEA):** https://www.nea.org.uk/get-help/key-things-to-do-if-you-are-struggling-with-your-energy-bills/

**Tudalennau Cymorth Llywodraeth y DU:** https://helpforhouseholds.campaign.gov.uk/energy-saving-advice/

**Cyngor at Bopeth – sut mae talu eich biliau ynni:** https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/energy/energy-supply/get-help-paying-your-bills/grants-and-benefits-to-help-you-pay-your-energy-bills/

**Ewch i'n gwefan thevulnerabilityinitiative.org i drefnu slot galwad yn ôl**

# Kidney Care

**Mae Kidney Care UK wedi bod yn cefnogi cleifion arennau a'u teuluoedd ers dros 40 o flynyddoedd, gan gynnig gwasanaethau cymorth hanfodol sy'n cael eu teilwra yn ôl yr heriau unigryw sy'n wynebu'r rhai sy'n byw gyda chlefyd yr arennau.**

Os ydych chi newydd gael diagnosis, angen cefnogaeth emosiynol, neu'n ymdopi â dialysis neu drawsblaniad, mae Kidney Care UK yma i'ch helpu ar hyd pob cam.

## Dwy ffordd o gael help:

**1** **Ffonio:** Ffoniwch linell gymorth Kidney Care UK i siarad am glefyd yr arennau a sut gallan nhw eich cefnogi chi a'ch anwyliaid. **0808 801 00 00.**

**2** **Cael gafael ar wybodaeth:** Mae gwefan Kidney Care UK yn llawn adnoddau am reoli clefyd yr arennau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn: **www.kidneycareuk.org/getsupport/**

## Sut gall Kidney Care UK Helpu

**Cefnogaeth Emosiynol:** Mae byw gyda chlefyd yr arennau'n gallu mynd yn drech na rhywun. Mae Kidney Care UK yn cynnig cefnogaeth emosiynol a seicolegol i'ch helpu i ymdopi â'r effaith ar eich bywyd.

**Cymorth Ariannol:** Yn cael trafferthion ariannol oherwydd clefyd yr arennau? Mae Kidney Care UK yn rhoi grantiau i helpu gyda hanfodion. Mae manylion ar eu gwefan.

**Cyngor ar Ddeiet:** Mae bwyta'n dda yn hollbwysig er mwyn rheoli clefyd yr arennau. Mae'r Kidney Kitchen yn cynnwys ryseitiau, cyngor a gwybodaeth sydd wedi cael eu dylunio i gleifion arennau.

**Eiriolaeth a Hawliau Cleifion:** Mae'r tîm Cefnogaeth ac Eiriolaeth Cleifion yn deall sut beth yw byw gyda chlefyd yr arennau ac yn gallu eich helpu i ddod o hyd i'r cymorth sydd ar gael.

## Angen Help Nawr?

Os ydych chi'n teimlo eich bod angen help nawr, ffoniwch llinell gymorth Kidney Care UK ar **0808 801 00 00**, a bydd un o'u Tîm yn gallu eich helpu ar unwaith.



# Cruse Bereavement Support

**Ers dros 65 o flynyddoedd, mae Cruse wedi bod yn helpu pobl i ddelio â heriau galar a cholled. Os ydych chi wedi colli rhywun yn ddiweddar neu flynyddoedd yn ôl, mae Cruse yn rhoi cefnogaeth dosturiol wedi'i theilwra i helpu unigolion a theuluoedd ymdopi yn ystod y cyfnodau anodd hyn.**

Os ydych chi'n cael trafferth rheoli eich emosiynau, yn chwilio am arweiniad ar sut mae siarad am eich galar, neu os ydych chi angen rhywun i wrando arnoch chi, mae Cruse yma i'ch helpu ar hyd pob cam.

## Dwy ffordd o gael help:

**1** **Ffonio:** Siaradwch â gwirfoddolwr cefnogaeth profedigaeth wedi'i hyfforddi. Ffoniwch Llinell Gymorth Genedlaethol Cruse i gael cefnogaeth a chyngor cyfrinachol am ddim ar **0808 808 1677**

**2** **Cael gafael ar wybodaeth ar-lein:** Mae gwefan Cruse yn llawn adnoddau, gan gynnwys canllawiau, erthyglau a chyngor i'ch helpu i ddeall ac ymdopi â galar. yn: **https://www.cruse.org.uk**

## Sut gall Cruse Bereavement Support Helpu:

**Cefnogaeth Emosiynol:** Mae galaru marwolaeth un o'ch anwyliaid yn gallu mynd yn drech na rhywun. Mae Cruse yn cynnig nifer o wasanaethau cefnogaeth profedigaeth gan gynnwys sesiynau un-i-un, llinell gymorth, sesiynau a grwpiau ar-lein ar Ddeall eich Profedigaeth.

**Cyngor Ymarferol:** Mae galar yn gallu effeithio ar bob agwedd ar eich bywyd. Mae Cruse yn gallu rhoi cyngor ar faterion ymarferol fel delio â threfniadau'r angladd a delio â phryderon ariannol. Mae Cruse hefyd yn gallu cefnogi cleient i feddwl sut mae'n rheoli tasgau bob dydd.

**Cefnogaeth Ar-lein:** Os yw'n well gennych chi gael help yn eich cartref, mae gwefan Cruse yn llawn adnoddau ar-lein, gan gynnwys erthyglau a sesiynau chefnogaeth rhithiol.

**Eiriolaeth:** Mae llawer o ffactorau eraill i'w hystyried pan fyddwn ni'n galaru, gan gynnwys materion iechyd, cyfreithiol neu ariannol. Bydd Cruse yn gwrando arnoch ac yn eich cefnogi'n emosiynol ac yn dweud wrthych lle mae rhagor o gyngor ar gael os byddwch chi angen.

Os hoffech chi siarad ag un o'r tîm Healthy Homes ffoniwch **0800 151 3014**, neu cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a byddant yn eich rhoi ar ben ffordd ynglŷn â sut gall Cruse Bereavement roi cymorth i chi.

IE HUB
INCOME & EXPENDITURE HUB

# Rheoli eich Materion Ariannol

**Mae rheoli eich materion ariannol yn gallu mynd yn drech na rhywun, yn enwedig pan fydd amgylchiadau'n newid. Ond mae'r IE Hub yn gallu eich helpu. Mae hi'n hawdd defnyddio IE Hub ar-lein, cewch ei ddefnyddio am ddim ac mae'n eich helpu i ddeall eich incwm a'ch gwariant.**

Os ydych chi'n chi'n rheoli cyllideb dynn, yn cael trafferth talu biliau, neu eisiau rhannu eich sefyllfa â chredydwyr, bydd IE Hub yn eich cefnogi pob cam o'r ffordd.

## Dechreuwch Arni Heddiw

1. **Ewch i'w gwefan:** Gallwch greu cyfrif am ddim yn **https://iehub.co.uk/healthy-homes-solutions/**
2. **Gwneud Cyllideb:** Dilynwch y ffurflen ar-lein gam wrth gam i nodi eich incwm, eich gwariant, a'ch dyledion
3. **Rhannu â Chredydwr:** Dewiswch y cwmnïau mae arnoch chi arian iddyn nhw neu rydych chi'n cael trafferth eu talu a rhannu eich manylion â nhw'n ddiogel (os ydych chi eisiau gwneud hynny)
4. **Gweld os ydych chi'n colli allan:** Ar ôl i chi greu cyllideb, ewch i'r dangosfwrdd i weld os oes gennych chi hawl i gael arian a chymorth ychwanegol
5. **Teimlo eich bod yn rheoli pethau:** Bydd IE Hub yno i chi os bydd eich sefyllfa yn newid, mae hi'n hawdd mewngofnodi nôl i'ch cyfrif a diweddaru eich cyllideb

## Sut gall IE HUB eich helpu

**Gwneud Cyllideb:** Mae IE Hub yn eich helpu i wneud cyllideb bersonol drwy ofyn cwestiynau syml am eich incwm, eich gwariant a'ch ffordd o fyw. Byddwch yn cael darlun clir o lle mae eich arian yn mynd bob mis ac yn dod o hyd i ffyrdd o'i reoli yn well.

**Rhannu â Chredydwr:**
Drwy IE Hub gallwch chi rannu eich cyllideb yn ddiogel â chredydwyr fel cwmnïau trydan a nwy, os ydych chi eisiau gwneud hynny. Mae hyn yn eu helpu i ddeall eich sefyllfa er mwyn iddyn nhw allu gweithio gyda chi i lunio cynlluniau talu neu ddewisiadau cefnogaeth eraill.

**Cymorth Ychwanegol:**
Mae IE Hub yn gwneud mwy na chyllidebau. Mae'n gallu eich cysylltu â chefnogaeth ychwanegol, fel:

- **Budd-daliadau:** Gallwch weld os ydych chi'n colli allan ar fudd-daliadau neu grantiau a fyddai'n gallu rhoi hwb i'ch incwm.
- **Tariffau Cymdeithasol:** Gallwch weld os ydych chi'n gymwys i gael disgownt ar bethau fel dŵr, gan wneud biliau'n fwy fforddiadwy.
- **Cyngor ar Ddyledion:** Mae IE Hub yn eich cysylltu â sefydliadau dibynadwy sy'n gallu rhoi cyngor ar reoli dyledion.

### Angen Cymorth Ar Unwaith?

Os ydych chi angen cymorth ar unwaith, mae ein tîm cyfeillgar yma i siarad â chi. Ffoniwch ni ar **0800 151 3014**, a byddwn yn fodlon eich arwain.





# Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS)

**Y TPS yw unig gofrestr "Peidiwch â Ffonio" swyddogol y DU ar gyfer ffonau tŷ a ffonau symudol ac mae'n golygu bod pobl yn gallu optio allan o alwadau ffôn marchnata a gwerthu niwsans a digroeso.**

Gallwch gofrestru gyda'r TPS am ddim a gallwch gofrestru eich rhif(au) ffôn yn gyflym. Bydd gwneud hynny'n golygu eich bod yn cael llai o alwadau ffôn marchnata a gwerthu.

Ar ôl cofrestru rhif ffôn gyda'r TPS, mae Rheoliadau Preifatrwydd ac Electronig (Cyfarwyddeb yr CE) 2023 yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i sefydliadau ffonio'r rhif hwnnw.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU ac mae ganddi'r pŵer i roi dirwyon i gwmnïau sy'n torri'r gyfraith. Mae'n rhaid i sefydliadau sgrinio yn erbyn TPS/CTPS o leiaf unwaith bob 28 diwrnod.

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru a'ch bod yn dal i gael galwadau niwsans digymell, ewch i **www.tpsonline.org.uk/complaint**, lle gallwch gwyno'n uniongyrchol i'r TPS am y rhif sy'n parhau i gysylltu â chi.

Os hoffech i'r tîm Healthy Homes gofrestru'r TPS i chi, ewch i **thevulnerabilityinitiative.org** a threfnu bod aelod o'r tîm yn eich ffonio chi'n ôl.

# Cymdeithas Alzheimer's

**Gall wynebu heriau Alzheimer fod yn frawychus, ond dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae ein tîm ymroddedig yma i'ch cyfeirio at gymorth ac adnoddau wedi'u teilwra, p'un ai chi neu un o'ch anwyliaid sy'n wynebu'r heriau hyn. Mae Cymdeithas Alzheimer's yn ceisio creu byd sy'n rhydd o effaith ofnadwy dementia, gan gynnig cymorth ar unwaith a meithrin gobaith am ddyfodol gwell.**

**Cymorth Cynhwysfawr wedi'i Deilwra i Chi:**

Cymorth dros y Ffôn: Mae llais cysurlon ochr arall i'r lein. Mae cynghorwyr dementia pwrpasol yn barod i gynnig cymorth, p'un a ydych chi'n byw gyda dementia, yn gofalu am rywun sydd â dementia, neu p'un a oes angen arweiniad arnoch chi ar gyfer eich anwyliaid. Ffoniwch Gymdeithas Alzheimer's unrhyw bryd ar **0333 150 3456**.

**Gwasanaethau Cymorth Lleol:** Dewch i ddarganfod cymuned sy'n eich deall ac yn eich cefnogi. O weithgareddau i godi'r galon fel "Singing for the Brain" i gyfarfodydd tawel mewn Caffis Dementia, mae'r gwasanaethau lleol yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol, gan sicrhau nad ydych chi byth yn teimlo'n unig.

**Fforwm Ar-lein:** Ymunwch â'u cymuned ar-lein am ddim. Mae'r llwyfan hwn yn cynnig lle i gysylltu, rhannu straeon a chael cyngor gan gymheiriaid sy'n wynebu problemau tebyg, p'un a yw dementia'n effeithio arnoch chi'n uniongyrchol neu rydych chi'n cefnogi rhywun sydd â dementia.

**Chwilio am gymorth nawr? Ffoniwch Gymdeithas Alzheimer's unrhyw bryd ar 0333 150 3456**

**Adnoddau Gwybodaeth:** Mae ein canllawiau cryno yn ffordd dda o gael gwybodaeth hanfodol am fyw gyda dementia, deall materion cyfreithiol a pharhau i fyw'n annibynnol. Archebwch ddeunydd darllen penodol am ddementia i ddysgu mwy.

**Fformatau Gwybodaeth Amrywiol:** Mae Cymdeithas Alzheimer's wedi ymrwymo i hygyrchedd. Gellir cael gwybodaeth sy'n gysylltiedig â dementia mewn sawl fformat: cyfieithiadau mewn nifer o ieithoedd, fersiynau Hawdd eu Deall, Iaith Arwyddion Prydain, sain a fideo, gan sicrhau bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

**Y Canllaw i Ddementia:** Newydd gael diagnosis o ddementia? Peidiwch â phoeni. Mae canllaw manwl ar gael gydag awgrymiadau ymarferol, i sicrhau eich bod yn parhau i fyw bywyd gwerth chweil. Lawrlwythwch gopi o'r canllaw yma: **https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/2020-03/the_dementia_guide_872.pdf**

Os hoffwch siarad ag aelod o dîm Healthy Homes, cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a gofyn i rywun eich ffonio chi'n ôl, neu ffoniwch **0800 151 3014,** a bydd y tîm yn gallu eich helpu i gael mwy o wybodaeth am Gymdeithas Alzheimer's.



# Gamblo - Cymorth a Chyngor

**Ydych chi'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â gamblo? Mae Healthy Homes yn gweithio mewn partneriaeth â GamCare, sef yr awdurdod blaenllaw sy'n cynnig cyngor, ymwybyddiaeth ac adnoddau strwythuredig i fynd i'r afael â phryderon gamblo.**

Mae GamCare yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i unrhyw un sydd wedi cael ei niweidio yn sgil gamblo. Mae ganddynt Linell Gymorth Genedlaethol ar gyfer pobl sy'n gamblo, yn darparu cymorth strwythuredig i unrhyw un sydd wedi cael ei niweidio yn sgil gamblo, yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gamblo mwy diogel a thriniaeth, ac yn annog dull effeithiol o gamblo'n fwy diogel yn y diwydiant gamblo.

## Pa gymorth mae GamCare yn ei ddarparu?

Mae GamCare yn darparu amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o gael help, gan gynnwys gwasanaeth dros y Ffôn, cyfleuster Sgwrsio Byw, Whatsapp a Facebook Messenger, Bwrdd Negeseuon Ar-lein ac Ystafelloedd Sgwrsio Testun Byw.

Mae gan GamCare becyn adfer sy'n cynnwys amrywiaeth o Adnoddau Hunan-gymorth.

Mae MyGamCare yn helpu i newid ymddygiad gamblo drwy bennu nodau personol a thracio hwyliau, ochr yn ochr ag adnoddau fel Meddalwedd Blocio, Hunan-eithrio ar gyfer gwaharddiadau gamblo gwirfoddol, strategaethau Rheoli Arian ar gyfer materion ariannol, ac Adnoddau Hunan-dywys ar gyfer cynllun adfer wedi'i deilwra - pob un ar gael i chi pan fyddwch chi'n barod.

### Dwy ffordd o gael help:

1. **Ffonio:** Gallwch gael cyngor ar unwaith unrhyw bryd gan gynghorwyr hyfforddedig GamCare. Ffoniwch 0808 8020 133 unrhyw bryd.
2. **WhatsApp a Facebook Messenger:** Gall defnyddwyr ar declynnau symudol gael cymorth ar unwaith. Mae cynghorwyr ein llinell gymorth yn barod i helpu, boed drwy WhatsApp ar **020 3031 8881** neu ar Facebook Messenger.

Os hoffech siarad ag aelod o'r tîm Healthy Homes dros y ffôn, cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a gofyn i rywun eich ffonio chi'n ôl, neu ffoniwch **0800 151 3014**, a bydd y tîm yn esbonio sut mae cofrestru i gael gwasanaethau cymorth GamCare.



# Independant Age - Cymorth ar Ddiwedd Oes

### Sut gall Independant Age eich cefnogi chi?

Mae Independant Age yn canolbwyntio ar wella bywydau pobl hŷn sy'n wynebu caledi ariannol.

Maent yn cynnig cyngor diduedd am ddim ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys arian, budd-daliadau, tai a gofal.

### Sut mae Cael Gafael ar Gymorth:

**Ewch i'w gwefan:** Cymerwch gip ar eu hadnoddau a'u gwasanaethau yn **www.independentage.org.**

**Ffoniwch eu llinell gymorth:** Siaradwch ag un o'u cynghorwyr am gyngor diduedd am ddim ar **0800 319 6789**, o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 5:30pm. Neu gallwch ffonio aelod o'n tîm ar **0800 151 3014** a gallant esbonio i chi sut gallwch gael help.

### Dyma sut gallant eich helpu:

**Gwybodaeth a Chyngor:** Mae Independant Age yn cynnig llinell gymorth am ddim sy'n rhoi arweiniad cyfrinachol ar faterion fel arian, budd-daliadau, gofal, cymorth, tai a symudedd.

Gall eu cynghorwyr arbenigol gynnal gwiriad am ddim o fudd-daliadau i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael popeth y mae gennych chi'r hawl iddo.

Gallwch archebu canllawiau cyngor Independant Age am ddim ar-lein neu drwy'r llinell gymorth, neu gallwch wrando ar y fersiwn sain ar y wefan. Ewch i **www.independentage.org/publications.**

**Grwpiau Defnyddiol dros y Ffôn:** Maent yn cynnal digwyddiadau am ddim dros y ffôn sy'n cynnig cyfleoedd dysgu a chymdeithasol, yn arbennig i'r rheini nad ydynt ar-lein neu sy'n cael trafferth mynd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Maent yn cynnal gweminarau hefyd ar amrywiaeth o bynciau, fel sut mae hawlio Lwfans Gweini i ofalu am eich iechyd meddwl.

**Cymorth i Ofalwyr:** Mae Independent Age yn rhoi gwybodaeth werthfawr am hawliau gofalwyr ac arweiniad ar sut mae cael gafael ar fudd-daliadau a chymorth i chi a'r person rydych chi'n gofalu amdano.

**Hyfforddiant Sgiliau Digidol:** Mae'r rhaglen Hi Digital, a ddatblygwyd gan Vodafone mewn partneriaeth ag Independent Age, yn cynnig cyrsiau ar-lein am ddim i helpu i wella eich sgiliau digidol.

Ewch i **www.independentage.org/hidigital.**

**Cofrestrwch ar gyfer ein gwasanaeth am ddim unrhyw bryd neu ffoniwch i siarad â'n tîm yn ystod oriau swyddfa. Ffôn 0800 151 3014**





# Hyfforddiant ar sgamiau gan Friends Against Scams

**Gall cofrestru â hyfforddiant ar-lein am ddim Friends Against Scams, helpu cartrefi agored i niwed fod yn fwy ymwybodol o ba sgamiau sy'n cael eu defnyddio, a fydd yn eu galluogi i ddiogelu eu hunain a phobl eraill sy'n bwysig iddynt.**

Mae Friends Against Scams yn un o fentrau Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol, a'i nod yw diogelu ac atal pobl rhag cael eu sgamio drwy rymuso pobl i sefyll yn erbyn sgamiau.

Gall aelodau HHS sy'n awyddus i wybod sut mae diogelu eu cartrefi a'u hanwyliaid rhag sgamiau gwblhau'r sesiwn ymwybyddiaeth Friends Against Scams. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth yn eu cymuned drwy nifer o fentrau sydd ar gael ar wefan Friends Against Scams.

Gall unrhyw un ymuno â Friends Against Scams a gwneud gwahaniaeth yn eu ffordd eu hunain.

### Sut galla i gofrestru â Friends Against Scams?

I gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru â Friends Against Scams, ewch i **thevulnerabilityinitiative.org** neu sganiwch y cod QR a chwblhau'r broses gofrestru.

### Cofrestru nawr

**Sganiwch y cod QR** i gofrestru heddiw ar gyfer y gwasanaethau ychwanegol hyn.

**I gael rhagor o wybodaeth am Friends Against Scams, ewch i www.friendsagainstscams.org.uk**



# Pecynnau Arbed Dŵr am Ddim

**Mae'r pecynnau arbed dŵr yn fenter i helpu cartrefi yn y DU i ddefnyddio llai o ddŵr a charbon.**

Mae cwmnïau'n darparu pecynnau am ddim i helpu cwsmeriaid i arbed dŵr. Gan fod cawodydd yn cyfrif am 27% o'r dŵr a ddefnyddir mewn cartrefi a bod cawodydd byrrach, sy'n para tua 4 munud yn gallu arbed hyd at £75 y flwyddyn, mae'n werth cofrestru i gael eich pecyn arbed dŵr am ddim gan eich cwmni dŵr.

Mae gan rai cwmnïau dŵr broses wahanol ar gyfer archebu'r pecyn arbed dŵr. Mewn rhai enghreifftiau, os oes gan y cwmni dŵr broses fwy personol, efallai y bydd angen i chi lenwi holiadur byr am faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio adref.

Rydyn ni wedi gwneud y broses mor syml â phosibl, o gofio bod sawl ffordd wahanol o gofrestru i gael eich pecyn arbed dŵr am ddim, gan sawl cwmni gwahanol.

Rydyn ni wedi nodi manylion dwy ffordd o gofrestru a chael gafael ar eich pecyn arbed dŵr am ddim gan eich cwmni dŵr.

## Sut galla i wneud cais am fy mhecyn arbed dŵr?

1. Gallwch wneud cais am becyn arbed dŵr am ddim heddiw drwy fynd i wefan eich cwmni dŵr a chwilio am: "Pecyn arbed dŵr am ddim" ar eu gwefan.
2. Gallwch ddefnyddio'r dolenni isod hefyd
   - www.getwaterfit.co.uk
   - nwl.watersavingkit.com
   - esw.watersavingkit.com
   - savewatersavemoney.co.uk
   - saveourstreams.co.uk

Gall y tîm Healthy Homes eich helpu i wneud cais am becyn am ddim hefyd. Cysylltwch â'r tîm ar **0800 151 3014** neu cofrestrwch yn **thevulnerabilityinitiative.org** a threfnu bod rhywun yn eich ffonio'n ôl.



# Tariffau Cymdeithasol Band Eang

**Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o bob cyflenwr band eang a'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi am eu gwasanaethau tariff cymdeithasol i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd:**

**BT Home Essentials**
Os ydych chi gyda BT ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael y ddau dariff cymdeithasol sydd ar gael gan BT sef BT Home Essentials 1 (£15 y mis) a 2 (£20 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.bt.com/exp/broadband/home-essentials**

**Country Connect Social Tariff**
Os ydych chi gyda Country Connect ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£15 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.country-connect.co.uk/residential-social-tariff**

**Essential Fibre Broadband**
Os ydych chi gyda G.Network ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£15 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.g.network/home-broadband/essential-fibre-broadband**

**Hyperoptic Fair Fibre 50 a 150**
Os ydych chi gyda Hyperoptic ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol Fair Fibre 50 (£15 y mis) neu Fair Fibre 150 (£25 y mis). I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a sut mae gwneud cais am dariff cymdeithasol, ewch i: **www.hyperoptic.com/fair-fibre-plan**

**KCOM Full Fibre Flex**
Os ydych chi gyda KCOM ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£14.99 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.kcom.com/home/check-postcode**

**NOW Broadband Basics**
Os ydych chi gyda NOW ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£20 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.help.nowtv.com/article/now-broadband-basics**

**Broadband Basics**
Os ydych chi gyda SKY ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£20 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **https://www.sky.com/help/articles/sky-social-tariff**

**Virgin Media Essential Broadband**
Os ydych chi gyda Virgin Media ar hyn o bryd ar dariff safonol, efallai eich bod chi'n gymwys i gael eu tariff cymdeithasol (£15 y mis). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.virginmedia.com/help/register-for-essential-broadband**

**TalkTalk Broadband**
Mae Talk Talk yn cefnogi'r rhaglen drwy lwybr gwahanol, lle gallai cwsmeriaid presennol sy'n cael lwfans ceisio gwaith a chredyd cynhwysol fod yn gymwys i gael gostyngiad neu'r opsiwn am ddim am 6 mis. Staff y Ganolfan Byd Gwaith fydd yn penderfynu pwy sy'n gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk/search.php**

*Amodau defnyddio: Mae manylion yr holl dariffau band eang cymdeithasol yn gywir adeg mynd i'r wasg ym mis Tachwedd 2022 ond fe allai'r darparwr eu newid. Ni all Healthy Homes Solutions gael ei ddwyn i gyfrif am newidiadau i'r manylion hyn. Dylech gadarnhau'r opsiynau prisio a chymhwyster diweddaraf gyda'r darparwr band eang perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: https://www.ofcom.org.uk/phones-and-broadband/saving-money/social-tariffs/*

# Dolenni cyflym

Rydyn ni'n deall bod amser yn werthfawr, felly rydyn ni wedi rhestru manylion URLs hanfodol er hwylustod.

| | |
|---|---|
| **Gwefan gwasanaethau cymorth Cymdeithas Alzheimer's** | https://www.alzheimers.org.uk/dementia-support-services |
| **Wales and West Utilities** | |
| Gwefan PSR | https://www.wwutilities.co.uk/services/priority-customers/priority-services-register/ |
| Tudalennau gwe penodol ar Effeithlonrwydd Ynni | https://www.wwutilities.co.uk/services/priority-customers/energy-and-water-saving-advice/ |
| **Cyngor ar Bopeth – sut mae talu eich biliau ynni** | https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/energy/energy-supply/get-help-paying-your-bills/grants-and-benefits-to-help-you-pay-your-energy-bills/ |
| **Cymorth Rheoli Dyledion gan Welfare Together** | www.welfaretogether.co.uk |
| **Adnodd gwirio DWP am ddim gan Policy in Practice** | https://bit.ly/4gFnN2V |
| **Friends Against Scams** | https://www.friendsagainstscams.org.uk/ |
| **GamCare - gwefan Cymorth a Chyngor ar Gamblo** | https://www.gamcare.org.uk/ |
| **Healthy Homes Solutions Ltd (HHS)** | www.healthyhomessolutions.co.uk |
| **Maggie's - Gofal Canser** | https://www.maggies.org/ |
| **Cymorth Iechyd Meddwl – gan Mental Health UK** | https://mentalhealth-uk.org/ |
| **National Energy Action (NEA) – Tudalennau Gwe ar Leihau Biliau Ynni** | https://www.nea.org.uk/get-help/key-things-to-do-if-you-are-struggling-with-your-energy-bills/ |
| **Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS)** | https://www.tpsonline.org.uk/ |
| **The Vulnerability Initiative - Gwefan Gofrestru** | www.thevulnerabilityinitiative.org |
| **Llywodraeth y DU – Tudalen i Gofrestru ar gyfer y Gostyngiad Cartrefi Cynnes** | https://www.gov.uk/check-if-youre-eligible-for-warm-home-discount |
| **Tudalennau Cymorth Llywodraeth y DU ar arbed arian ar filiau gwres** | https://helpforhouseholds.campaign.gov.uk/energy-saving-advice/ |
| **Gwasanaeth Cofrestru'r sawl sy'n agored i niwed (VRS)** | www.vulnerabilityregistrationservice.co.uk |
| **Pecyn Arbed Dŵr – y gwasanaeth chwilio a ddefnyddir amlaf** | www.getwaterfit.co.uk |



# Amodau

I weld Telerau ac Amodau llawn y gwasanaeth hwn, ewch i: **thevulnerabilityinitiative.org/terms**

I weld y datganiad GDPR a phreifatrwydd llawn, ewch i: **thevulnerabilityinitiative.org/privacy**

Caiff galwadau eu recordio i sicrhau bod Healthy Homes Solutions yn gallu cydymffurfio â safonau cyfreithiol a meini prawf rhaglen Ofgem o ran VCMA (Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid a Phobl mewn Sefyllfaoedd Agored i Niwed). Mae'r tîm Healthy Homes wedi ymroi i gynorthwyo aelodau gyda'u ceisiadau am wasanaethau ac i roi arweiniad ar y gwasanaethau sydd ar gael i'r cartrefi agored i niwed a nodir yn y llyfryn hwn. Fodd bynnag, ni all gynnig cyngor ar y gwasanaethau hyn.

Mae Healthy Homes Solutions wedi nodi'r gwasanaethau sydd ar gael, ond ni all reoli unrhyw ddiwygiadau, newidiadau i gymhwysedd nac achosion o wasanaethau'n dod i ben. Bydd menter Healthy Homes yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am unrhyw newidiadau i wasanaethau. Nodwch y gall gwasanaethau amrywio ledled Cymru, Lloegr a'r Alban o ganlyniad i ddulliau ariannu gwahanol pob llywodraeth ar gyfer cefnogi cartrefi agored i niwed.

**GDPR – Cydsyniad Penodol:** Ar ôl cofrestru â'r Fenter HHS, rydych chi, drwy hyn, yn rhoi cydsyniad penodol ac yn derbyn y telerau a amlinellir yn y Datganiad (https://www.vrshhs.org/vrs-declaration). At hyn, rydych chi'n awdurdodi Healthy Homes Solutions Ltd, gyda'ch cydsyniad penodol, i'ch cynrychioli ac i gyflwyno eich gwybodaeth fel y bo angen o fewn y fenter at ddibenion eich cofrestru yn y gwasanaethau ychwanegol y cytunwyd arnynt.

**Meini prawf cymhwysedd:** Mae proses y meini prawf cymhwysedd a gaiff ei dilyn gan y tîm Healthy Homes Solutions yn wiriad cychwynnol i nodi a yw'r cartref neu'r Aelod VRS yn gallu gwneud cais am y gwasanaethau gwahanol. Os bydd gwybodaeth anghywir a allai effeithio ar gais yn ddiweddarach yn cael ei rhoi ar y cam hwn, ni ellir dwyn y VRS na Healthy Homes Solutions i gyfrif am unrhyw geisiadau nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol y ceisiadau dan sylw.

Mae'r Healthy Homes Vulnerability Initiative yn rhoi cyflwyniad i'r broses o gwblhau cais. Ar ôl gwneud cais am wasanaeth (ar eich rhan), nid yw tîm Healthy Homes Solutions yn ymwneud â'r broses mwyach na'r berthynas sydd gennych chi â darparwr y gwasanaeth dan sylw.

Os ydych chi'n penderfynu eich bod am gau neu ganslo cais rhaid i chi wneud hyn gyda darparwr y gwasanaeth dan sylw drwy eu gweithdrefn ganslo arferol sydd i'w gweld ar eu gwefan.

**Tariffau Cymdeithasol Band Eang:** Gan fod y gwasanaethau band eang yn gofyn i'r cwsmer ymrwymo i gontract, y cyfan y gall y tîm Healthy Homes ei wneud yw rhoi gwybod i aelodau pa gynigion sydd ar gael a'u helpu i ddarganfod a ydynt yn gymwys a sut mae gwneud cais. Nid yw Healthy Homes Solutions yn cefnogi nac yn hyrwyddo unrhyw gynigion penodol.

**I weld y Telerau ac Amodau llawn, ewch i: thevulnerabilityinitiative.org**

# Nodiadau

The Vulnerability Initiative.

# Gwasanaeth Cofrestru'r sawl sy'n agored i niwed

HEALTHY HOMES SOLUTIONS

**Datblygwyd a Rheolwyd gan:**


Healthy Homes Solutions Limited
info@healthyhomessolutions.co.uk
www.healthyhomessolutions.co.uk


## Our Trusted Partners

Alzheimer's Society
Mental Health UK
Cadent Your Gas Network
NEA
Cruse Bereavement Support
National Energy Foundation
Friends Against Scams
Policy in Practice
GamCare Gambling Support Starts Here
SGN
GOV.UK
tps Telephone Preference Service
IE HUB Income & Expenditure Hub
Independent Age
Vulnerability Registration Service
Kidney Care UK
Welfare Together
Maggie's Everyone's home of cancer care
Wales&West Utilities

I siarad gydag aelod o'n tîm, ffoniwch ni am ddim ar **0800 151 3014**

Sganiwch y cod QR i gofrestru heddiw ar gyfer y gwasanaethau hyn sydd am ddim

**thevulnerabilityinitiative.org**


Ariennir Healthy Homes Vulnerability Initiative gan Wales and West Utilties gan ddefnyddio'r VCMA (Rhaglen Ofgem ar gyfer Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid a Phobl mewn Sefyllfaoedd Agored i Niwed).


*Mae'r Fenter i Bobl Agored i Niwed Healthy Homes yn cysylltu preswylwyr â gwasanaethau partner ond nid yw'n cymeradwyo cwmnïau, cynnyrch na chyngor penodol. Dylai defnyddwyr gynnal eu gwiriadau diwydrwydd dyladwy eu hunain, ac nid ydyn ni'n derbyn unrhyw atebolrwydd am arweiniad trydydd parti, heblaw pan fydd hynny'n ofynnol o dan y gyfraith. Manylion yn gywir adeg mynd i'r wasg (Mehefin 2025).*


Noddir gan
WALES&WEST UTILITIES
**wwutilities.co.uk**